# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)08-01 (p10): 17 Ionawr 2008

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-087: Ysgolion Cymunedol Powys - llythyr o eglurhad

### Diben

Gofynnir i'r pwyllgor ystyried llythyr o eglurhad oddi wrth Grwp Gweithredu Ysgolion Cymunedol Powys.

### Cefndir

Mae'r ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i 'gynnal cymunedau Powys' ac i 'atal a gwrthdroi'r pwysau sydd ar Gyngor Sir Powys i gau'r ysgolion'.

Bu'r pwyllgor yn ystyried y ddeiseb yn ystod cyfarfod y pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2007, a chytunwyd i ofyn i'r deisebwyr ddarparu datganiad byr yn canolbwyntio ar yr hyn y dymunir ei weld gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r deisebwyr wedi darparu llythyr i egluro'u sefyllfa. Amgaeir copi o'r llythyr yn Atodiad A.

### Camau i'w cymryd gan y pwyllgor

Gofynnir i'r pwyllgor ystyried y llythyr hwn a phenderfynu ar unrhyw gamau pellach sydd i'w cymryd.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008